

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 14 Rhagfyr 2020

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Iau, 17 Rhagfyr 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 24 Rhagfyr 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Mawrth, 29 Rhagfyr 2020.

Presennol: Y Cyngorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dafydd Roberts.

Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad.

(10.00 o'r gloch yb - 11.15 o'r gloch yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith Pennaeth Gwasanaethau Democraidd
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaedig y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod lonawr hyd at Awst 2021 fel y'i cyflwynwyd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2020/21 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb wneud sylwadau pellach.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cydymffurfio gyda gofynion CIPFA.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Na. Y Cyngor Llawn sy'n cymeradwyo'r adroddiad adolygu canol blwyddyn

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p>5 Premiymau'r Dreth Gyngor - Ail Garrefi ac Eiddo Gwag Tymor Hir (Adolygiad) Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151</p>
PENDERFYNIAD	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi cynnwys yr adroddiad sy'n adolygu gweithrediad Premiwm y Dreth Gyngor ers penderfyniad Cyngor Sir Ynys Môn ar 27 Chwefror 2019 i gynyddu premiymau Treth Gyngor o 1 Ebrill, 2019 i 100% ar gyfer eiddo gwag tymor hir a 35% ar gyfer ail gartrefi; • Nodi effaith pandemig Covid-19 ar sylfaen y Dreth Gyngor a phremiymau Treth Gyngor; • Parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r rheoliadau presennol ac i gyflwyno dulliau trethiant newydd er mwyn lleihau nifer yr ail gartrefi ar yr Ynys ac i ddarparu cyllid ychwanegol i helpu i gefnogi prosiectau lleol sydd â'r nod o helpu pobl ifanc Ynys Môn i allu prynu neu rentu eu cartref eu hunain ar yr Ynys; • Cyhoeddi'r bwriad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i o leiaf 50% o Ebrill 2022; • Y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu i'r Swyddogaeth Adnoddau er mwyn sicrhau bod yr holl berchenogion eiddo a ddylai dalu'r premiwm yn cael eu nodi a'u gwneud i dalu'r dreth yn llawn; • Y bydd balans yr arian ychwanegol a gynhyrchir o gynyddu'r premiwm yn cael ei gyfeirio tuag at gynlluniau a fydd yn helpu pobl leol i allu fforddio prynu neu rentu eiddo ar yr Ynys; • Y bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad llawn ar ei fwriad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 50% a'i gynlluniau ychwanegol i helpu pobl leol gyda thrigolion Ynys Môn, perchnogion ail gartrefi ar yr Ynys a

	gweithredwyr llety hunanarlwyo , rhwng Ebrill a Mehefin 2021, gyda'r penderfyniad terfynol ar lefel y premiwm i'w wneud gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Adolygu Premiymau'r Dreth Gyngor ar gyfer Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Tymor Hir
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Chwaraeon Gogledd Cymru - Achos Busnes Pennaeth Dros Dro – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
PENDERFYNIAD	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi, mewn egwyddor, sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru; • Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro gwblhau'r Cytundeb Rhwng yr Awdurdodau mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr a dod â'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith os oes unrhyw bryder y bydd y cyfryw gytundeb yn niweidio gofynion y Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Ystyried Achos Busnes Chwaraeon Gogledd Cymru
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes